

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Mrs Elsie May Edwards (Llansannan) yn ei phrofedigaeth o golli ei mab, David Edwards, oedd hefyd yn frawd i Nesta Evans (Saron) ac Olwen Lloyd (Llansannan). Cofiw'n am weddill y teulu hefyd yn eu profedigaeth a gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Parhawn i gofio am y cleifion yn ein gweddïau . Mae Gwenllian Jones (Henllan) bellach wedi symud i Ysbyty Rhuthun, ac mae Dilys Vaughan (Saron) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari, fel ag y mae Gwyneth Rawson (Llanfair) yn Ysbyty Glan Clwyd. Cyflwynwn hwy i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Cofiw'n yn dyner hefyd am eraill sy'n mynd trwy gyfnod digon anodd y dyddiau hyn a phery'r rhain a'u hanwyliaid yn ein gweddïau'r un modd.

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Gair i'ch atgoffa y bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn eich cyfraniad tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd **erbyn dydd Sul nesaf (25ain)** fan bellaf, os gwelwch yn dda. **Nodyn i'r Trysoryddion:** *A wnewch chi anfon yr arian i Mair (gydag unrhyw siec yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled')* CYN Ebrill 1af, os gwelwch yn dda?

Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd

Gair i'ch atgoffa fod angen dod â'r cyweithiau i Gapel Coffa Henry Rees, Llansannan **nos Lun, Mawrth 26ain** rhwng 7.00 ac 8.00 yr hwyr. Gofynnir yn garedig i chi roi enw eich Ysgol Sul a rhestr o enwau llawn y plant gyda'r cywaith, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **MYFYRDOD Y PASG** yn Festri Capel Henllan nos Fawrth, Mawrth 27ain am 7.30.
- **OEDFA BORE'R GROGLITH I'R FRO** – Oedfa gymun yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn bore Gwener, Mawrth 30ain am 10.30.
- **OEDFA'R GROGLITH** yng Nghapel Cefn Berain nos Wener, Mawrth 30ain am 7.00. Pregethir gan Mr Dennis Davies, Llanrwst.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yng Nghydweli rhwng Ebrill 2il-5ed gyda phrif weithgareddau'r ŵyl yn cael eu cynnal yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian yng Nghydweli. Am fwy o fanylion: www.llanw.org
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Ebrill 7fed-12fed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.wordaliveevent.org



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18^{fed} Mawrth 2018

Darlleniad y Dydd

Seffaneia 3:14-20

(BCND tud.856 / BCN tud.780)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i'n gwasanaethau wrth i ni brysuero tuag at ddigwyddiadau'r Pasg. Gweddiwn y bydd yr Arglwydd Iesu'n dod yn fwy byw i ni dros yr wythnosau nesaf, wrth i ni geisio arweiniad ac eneniad yr Ysbryd Glân ar ein hoedfaon a'n cyfarfodydd.

Beth sy'n gwneud cân dda yn eich tyb chi? Cwestiwn a drafodwyd yn hirfaith o gwmpas cystadleuaeth Cân i Gymru ychydig wythnosau yn ôl! Geiriau crefftus a theimladwy neu alaw gofiadwy nad oes posibil ei chael allan o'n pen?! Petaem yn gofyn i wahanol bobl dwi'n siŵr y byddem yn cael amrywiaeth eang o atebion yn cyd-fynd â chwaeth bersonol, ond eto themâu digon cyfarwydd sy'n tueddu i fod yn destun nifer fawr o ganeuon. Themâu cyfarwydd gan eu bod yn deillio o'n profiadau cyffredin ni fel pobl – cariad, colled, dyheadau a llawenydd. Tybed sut y mae cân y crediniwr yn cymharu? Neu beth am gân Duw? Yn ein darlleniad ar y cyd heddiw, mae'r Arglwydd yn cymhell ei bobl i ganu, yn wir i weiddi'n uchel mewn llawenydd a gorfoledd. Ond mae yna reswm penodol pam fod Seffaneia 3 yn annog pobl Dduw i ganu – oherwydd bod Duw am weithredu mewn ffordd arbennig er mwyn ei bobl. O adnodau 15 i 17, gwelwn nifer o ddisgrifiadau o'r hyn oedd yn sail i obaith a llawenydd Israel. Ond wrth gwrs proffwydoliaeth o'r hyn oedd i ddod a geir yma, nid disgrifiad o'r sefyllfa yr oeddynt ynnddi ar yr adeg hynny. Anogwyd y bobl i lawenhau gan y byddai'r Arglwydd yn troi eu cosb oddi wrthynt, yn delio â'u gelynyon ac y byddai Ef yn eu canol hwy fel Brenin yn teyrnasu. Allwch chi ddychmygu mor felys yw clywed geiriau o'r fath yn cael eu dweud wrthoch? Ac os nad yw hynny'n ennyn ymateb, beth am y ffaith fod yr Arglwydd ei hun yn gorfoleddu ac yn llawenhau â chân oherwydd ei bobl? (Ad. 17) Duw yn dathlu oherwydd achubiaeth ei bobl – fel y dywedodd Iesu yn Luc 15:7!

Wrth i ni agosáu at y Pasg, cawn ein hatgoffa o'r gwahaniaeth rhyngom ni a phobl Dduw yn yr Hen Destament. Roeddynt hwy'n edrych ymlaen at ddyfodiad y Meseia, rydym ni'n edrych yn ôl ar fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu yn ddiolchgar. Iesu yw'r Meseia, a thrwyddo Ef y gweithredodd Duw un waith ac am byth i achub ei bobl. Fel y dywed Galatiaid 3:13 'Prynodd Crist ryddid i ni oddi wrth felltith y Gyfraith pan ddaeth, er ein mwyn, yn wrthrych melltith, oherwydd y mae'n ysgrifenedig: "Melltith ar bob un a grogir ar bren!" Y cwestiwn allweddol felly yw – ydym ni'n perthyn i'r Meseia – ydym ni wedi troi i ffwrdd o bob gobaith a hunan gyfiawnder arall a thrystio'n unig ynnddo Ef? Os felly, gallwn uno yn y gân nefolaidd a dweud –

Diolch byth, a chanmil diolch,
diolch tra bo ynof chwyth,
am fod gwrthrych i'w addoli
a thestun cân i bara byth;

Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 12:14-19 (BCND tud.116 / BCN tud.106)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 18^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Gwion yn pregethu.
- Mercher – 21^{ain} ➤ **Dal i Gredu** – sesiwn holi a thrafod yn Ffestri Cefn Meiriadog am 7.30. Croeso i bawb.
- Iau – 22^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
➤ **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod yn Ffestri Capel Lôn Swan, Dinbych am 7.00. Cyn delio â'r materion gwaith, bydd Rhodri Darcy, Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn rhoi rhagarweiniad ar ddefnyddio "Technoleg yn yr Eglwys".
- Gwener – 23^{ain} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 25^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 25^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deulu yn Llansannan am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.
➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mawrth – 20^{fed} ➤ Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Ffestri Llansannan o 1.30–3.30. Bydd Rhys Williams, Swyddog Tân Gogledd Cymru yn dod draw hefyd i roi sgwrs.
- Mercher – 21^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW (18^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 25^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Llun – 19^{eg} ➤ Cynhelir Clwb Ysgol Sul Saron yn Ffestri'r Capel am 3.15.
- Sul nesaf – 25^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yno am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00, a bydd Ysgol Sul yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 25^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 18^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu i'r daith ac yn gweinyddu'r cymun yn Llanefydd am 10.00. Bydd paned i bawb ar ddiwedd y gwasanaeth a chyfle i brynu nwyddau o stondin Masnach Deg dan ofal plant yr Ysgol Sul. Byddwn hefyd yn ddiolchgar o dderbyn nwyddau tuag at y Banc Bwyd yn Ninbych.
- Gwener – 23^{ain} ➤ Cymdeithas Capel Cefn Berain – Noson Cawl a Chân yng nghwmni Sam Pritchard, Tremeirchion yn neuadd Llanefydd am 7.00. Pris mynediad: £8 oedolion, £3 i blant. Enwau i Eirian Berain (540447) erbyn Mawrth 20fed. Elw tuag at Menter Patagonia. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 25^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.